


## Mwy am adnabod coed

Mae dau brif fath o goed – rhai sydd â dail gwastad a llydan (llydanddail) a rhai sydd â dail fel nodwyddau (fel coed Nadolig). Mae'r rhan fwyaf o goed llydanddail yn colli eu dail yn yr hydref ac yn tyfu rhai newydd yn y gwanwyn.

Un ffordd hawdd o adnabod coeden yw trwy edrych ar ei dail a'i brigau. I ddefnyddio'r canllaw hwn, sylwch ar siâp y dail a'r brigau ar eich coeden ac edrychwch i weld a ydynt yn cyfateb i'r lluniau yn y canllaw.

I **ddechrau** edrychwch ar siâp y ddeilen. Ai deilen sengl 'solet' yw hi, neu ddeilen labedog, neu wedi'i rhannu'n nifer o ddeilios, i gyd wedi'u cysylltu i'r un coesyn (deilen gyfansawdd)?



Edrychwch ar y brigau a chymharu siâp a lliw'r blagur â'r lluniau. Chwiliwch am ffrwythau ar y goeden neu ar y ddaear oddi tani – gall hyn eich helpu i'w hadnabod. Os yw eich coeden yn edrych yn wahanol i'r lluniau, ac nad ydych chi'n gwybod ei henw, rhwch 'anhysbys' gyferbyn ag enw'r goeden.

Er mwyn cwblhau'r arolwg, cofiwch roi eich canlyniadau ar wefan OPAL:  
[www.OPALexplore.org](http://www.OPALexplore.org)



**Cyfle i ddysgu mwy am goed** – lawrlwythwch becyn mawr am goed yn rhad ac am ddim, gyda mwy na 50 o syniadau a gweithgareddau, o wefan **nature detectives** Coed Cadw:  
[www.naturedetectives.org.uk/download/trees](http://www.naturedetectives.org.uk/download/trees)

Datblygwyd y canllaw hwn gan y Natural History Museum a'r Cyngor Astudiaethau Maes mewn partneriaeth â Coed Cadw.  
Mae ffotograffau'r dail a'r brigau'n eiddo i Coed Cadw, a'r ffrwythau yn eiddo i'r Cyngor Astudiaethau Maes.



# Canllaw coed OPAL



## Ydych chi'n barod i ddechrau ar Arolwg **Ansawdd Aer** OPAL?

Am wybod pa goed y dylech chi edrych amdanynt?



Trowch y dudalen i ddysgu mwy am chwech  
o goed cyffredin.

## Masarnen (Sycamorwydden)

– *Acer pseudoplatanus*

Mae gan y ddeilen 5 llabed, gydag ymyl danheddog.

Chwiliwch am 'allweddi' pâr, adeiniog (maent yn cael eu galw'n hofrenyddion yn aml) yn hongian o'r goeden yn yr haf a'r hydref.

Mae smotiau du ar y dail yn debygol o fod yn ffwng o'r enw 'Smotiau Tar'.



## Ceiriosen


– rhywogaeth *Prunus*

Mae gan y rhisgl brown neu goch stribedi fel papur sy'n pillio'n lletraws.



## Pisgwydden – rhywogaeth *Tilia*

Deilen siâp calon sydd fel rheol yn chwyddo'n fwy ar un ochr i'r coesyn na'r llall.



## Derwen

– rhywogaeth *Quercus*

Chwiliwch am fes ar y goeden ac ar lawr o dan y goeden.



## Ffawyddden

– rhywogaeth *Fagus*

Chwiliwch am gnau trionglog neu eu gorchudd pigog ar y goeden ac ar lawr o gwmpas y goeden.



## Bedwen – rhywogaeth *Betula*

Chwiliwch am risgl llyfn, sydd fel rheol yn wyn neu'n llwyd (bron byth yn frown) – ar goed hŷn fe fydd y rhisgl yn hollti ac yn dangos craciau tywyll.



## Onnen – *Fraxinus excelsior*

Pâr o 'ddeilios' gydag ymylon anghyson ar goesyn **gwyrdd**.

Blagur mawr du ar y brigau.

Chwiliwch am glystyrau o 'allweddi' gydag un adain ar y goeden rhwng yr hydref a'r gwanwyn.



## Cerdinen (Criafolen)

– *Sorbus aucuparia*

Pâr o 'ddeilios' gydag ymyl danheddog ar goesyn **coch**.

Blagur gwelw ar y brigau.

Chwiliwch am aeron coch yn yr hydref.



## Castanwydden y Meirch

– *Aesculus hippocastanum*

Blagur tew sy'n aml yn ludiog mewn parau ar frigau.

Chwiliwch am goncyrs yn yr haf a'r hydref.

